

Cylchgrawon Hwyl yr Haf

Yr actores,
Rakie Ayola yn
dysgu Cymraeg



**TOMOS YN MYND
'AM DRO'**

Dau dro gan Tomos, y tiwtor



**COGINIO GYDA NERYS
HOWELL**

Rysâit salad ar gyfer yr haf



**GARDDIO GYDAG
ADAM**

Sgwrs gydag Adam yn yr Ardd



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn



Croeso

Croeso i gylchgrawn Hwyl yr Haf!

Diolch am ddarllen cylchgrawn Hwyl yr Haf. Yn y cylchgrawn, mae erthyglau am gadw'n heini, coginio, garddio, mynd am dro a llawer mwy. 'Dyn ni hefyd yn sgwrsio gyda phobl enwog fel Raki Ayola, Nerys Howell ac Ifan Jones Evans, felly mae rhywbeth yma i bawb!

Yn y cylchgrawn, mae triongl glas ar rai erthyglau. Mae triongl

glas yn **golygu** bod erthyglau yn addas i ddysgwyr **mwyr profiadol**. Ond beth am **roi cynnig ar** ddarllen pob erthygl? Gobeithio byddwch chi'n hapus i weld faint dych chi'n ei ddeall.

Mae miloedd o ddysgwyr wedi mwynhau dysgu Cymraeg ar-lein dros y flwyddyn ddiwethaf. 'Dyn ni'n edrych ymlaen at groesawu dysgwyr i'n cyrsiau newydd sy'n dechrau ym mis Medi.

Gobeithio cewch chi gyfle i ymarfer eich Cymraeg dros yr haf. Beth am drio un o'r syniadau ar y dudalen nesaf neu gymryd rhan yn [Her yr Haf?](#) Daliwch ati - pob lwc!

Efa Gruffudd Jones
Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Her yr Haf

Sut dych chi am ymarfer eich Cymraeg dros yr haf? Mae digon o gyfleoedd ar gael i chi - beth am drio un o'r rhain?



Ar Lafar

Cafodd gŵyl Ar Lafar ei chynnal ar-lein eleni. Dych chi'n gallu gwyllo holl fideos Ar Lafar ar ein sianel [YouTube](#).



Gŵyl Amdani

Cafodd Amdani - Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg ei chynnal am y tro cyntaf eleni. Dych chi wedi darllen llyfrau 'Amdani'? **Bwriad** yr ŵyl oedd dathlu'r llyfrau ac annog dysgwyr i fwynhau darllen yn Gymraeg. Dych chi'n gallu gwyllo holl fideos yr ŵyl ar ein [gwefan](#). Mae podlediad gyda'r awdur Manon Steffan Ros hefyd.



Mwynhau'r Gymraeg

Dych chi wedi gweld y logo yma? Logo 'Mwynhau'r Gymraeg' ydy hwn. Logo newydd gan y Mentrau Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw 'Mwynhau'r Gymraeg'. Mae'r logo yn dangos pa ddigwyddiadau sy'n addas i ddysgwyr. Chwiliwch am y logo ar bosteri'r Mentrau Iaith.

Her yr Haf

Beth am gymryd rhan yn [Her yr Haf?](#) Bwriad Her yr Haf ydy annog dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg dros yr haf. Beth am lenwi'r ffurflen sydd ar ein gwefan erbyn 21 Awst? Mae cyfle i ennill cwrs Dysgu Cymraeg am ddim ym mis Medi.

S4C dros yr haf

Hen Dŷ Newydd

Dych chi wedi gweld rhaglen Hen Dŷ Newydd ar S4C? Yn Hen Dŷ Newydd, mae tri **chynllunydd** yn **adnewyddu** rhan o dŷ bob wythnos. Mae Gwyn Eiddior, Carwyn Lloyd Jones a Mandy Watkins yn cydweithio i adnewyddu cegin, lolfa, ystafell wely neu **ofod** yn yr ardd bob wythnos. Mae Hen Dŷ Newydd ymlaen bob nos Sul am 8yh ar S4C.

Wythnos Traethau Cymru

Rhwng 12-16 Gorffennaf bydd S4C yn dathlu traethau Cymru. Bydd Prynhawn Da a Heno yn **darlledu** o draeth Llanelli, a bydd **penodau** o Cynefin ac Am Dro ar y teledu. Nos Wener, 16 Gorffennaf, bydd un cwpwl yn priodi ar un o draethau Cymru yn ystod rhaglen Priodas Pum Mil.

Radio Cymru dros yr haf

Mehefin

Y Bennod Nesaf - Rhaglen am y **dyfarnwr** Nigel Owens, a'i fywyd ar ôl iddo ymddeol. **Gorffennaf**

Crwydro'r Cambria - Dafydd Morris Jones a Ioan Lord yn arwain teithiau ar hyd llwybrau Mynyddoedd y Cambria. **Awst**
Swyn y Sul - Fflur Wyn, y soprano yn ymuno â thîm Radio Cymru ac yn **cyflwyno** rhaglen 'Swyn y Sul'.

How will you practise your Welsh over the summer? There are plenty of opportunities for you to use and enjoy your Welsh over the coming months. We've listed some ideas above and Learn Welsh tutor, Jonathan Perry has also shared some of his top tips. Have you seen our [2021 Summer Challenge?](#) Submit your form online by 21 August to be in with a chance of winning a free Learn Welsh course in September!



Hen Dŷ Newydd. Llun: S4C

Gair gan y tiwtor

Diolch i Jonathan Perry, tiwtor Dysgu Cymraeg, am y syniadau eraill yma:

1. Defnyddiwch adnoddau ar-lein dros yr haf. Beth am ddefnyddio adnoddau [dysgucymraeg.cymru](#). Duolingo neu SaySomethingInWelsh?
2. Cadwch mewn cyswllt â dysgwyr eraill. Beth am gyfarfod dysgwyr ar-lein neu y tu allan? Beth am anfon neges destun neu siarad gyda dysgwyr dros y ffôn?
3. Beth am wneud rhestr yn Gymraeg? Gwnewch restr siopa neu restr dasgau yn Gymraeg.
4. Gwylwch gyfres neu ffilm ar S4C Clic (gydag isdeitlau os oes angen).
5. Oes hobi gyda chi? Gwnewch yr hobi yn Gymraeg!
6. Chwiliwch am restr chwarae cerddoriaeth Gymraeg ar YouTube neu wrando ar Radio Cymru.
7. Beth am fwynhau'r Eisteddfod AmGen - mwy ar dudalen 22.
8. Beth am wyllo fideo [Taith yr Iaith](#) eto? Sioe i ddysgwyr am hanes y Gymraeg ydy Taith yr Iaith gan Mewn Cymeriad.

Cynnig Cyw Cynnar:
disgownt 50%!
Early Bird Offer:
50% discount!

£45 yn unig!
Just £45!



The National Centre for Learning Welsh works with 11 course providers to deliver a range of Welsh courses. Go to [learnwelsh.cymru](#) for more information. Chief Executive, Efa Gruffudd Jones welcomes you to this magazine for Welsh learners. We hope that you enjoy the range of articles on offer and we look forward to starting brand new classes in September. If you have any suggestions regarding the magazine, please email office@learnwelsh.cymru

Eich barn chi

Gobeithio byddwch chi'n mwynhau darllen Hwyl yr Haf. 'Dyn ni eisiau clywed eich barn am Hwyl yr Haf. Mae croeso i chi anfon eich **syllwadau** at swyddfa@dysgucymraeg.cymru.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn edrych ar ôl y sector Dysgu Cymraeg. Mae'r Ganolfan yn gweithio gydag 11 **darparwr cyrsiau**, sy'n trefnu cyrsiau Dysgu Cymraeg. Am fwy o wybodaeth ac i chwilio am gwrs, ewch i [dysgucymraeg.cymru](#)



Geirfa

golygu - means
mwyr profiadol - more experienced
rhoi cynnig ar - to give it a go
Prif Weithredwr - Chief Executive
syllwadau - comments
darparwr cyrsiau - course provider

Geirfa

bwriad - intention
cynllunydd - designer
adnewyddu - to renovate
gofod - space
darlledu - broadcast
penodau - episodes
dyfarnwr - referee
cyflwyno - to present

Diolch yn fawr i bawb fu ynghlwm â'r gwaith o greu Hwyl yr Haf. Diolch yn fawr i'r holl gyfranwyr, ffotograffwyr ac i Angharad Prys a Manon Llwyd Bowen am gydlynw'r cyfan.



Cynnwys

5-6

YR ACTORES, RAKIE AYOLA, YN DYSGU CYMRAEG

Taith Rakie i ddysgu'r iaith



- 5 - 6**
Yr actores, Rakie Ayola yn dysgu Cymraeg
Taith Rakie i ddysgu'r iaith
- 7 - 8**
Dysgu Cymraeg o dramor
Hanes dysgwyr o bedwar ban byd
- 9**
Dysgu Cymraeg a gweithio drwy COVID-19
Holi dwy nyrs, Rachel a Jacqui
- 10**
Cadw'n heini dros yr haf
Cyngor gan Zoe Pettinger
- 11-12**
Garddio gydag Adam
Sgwrs gydag Adam yn yr Ardd
- 13-14**
Coginio gyda Nerys Howell
Rysâit salad ar gyfer yr haf
- 15**
Stori fer
Y Treigladd Olaf gan Pegi Talfryn
- 16**
Defnyddio'r Gymraeg wrth ddarlenn
Llyfrau newydd cyfres Amdani
- 17-18**
Diwrnod ym mywyd Ifan Jones Evans
Ifan ar y fferm
- 19-20**
Tomos yn mynd 'Am Dro'
Dau dro gan Tomos, y tiwtor
- 21**
Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
Hanes Daniela Schlick
- 22**
Canu yn Gymraeg am y tro cyntaf
Dionne Bennett yn dysgu Cymraeg



11-12

GARDDIO GYDAG ADAM

Sgwrs gydag Adam yn yr Ardd



13-14

COGINIO GYDA NERYS HOWELL

Rysâit salad ar gyfer yr haf



10

CADW'N HEINI DROS YR HAF

Cyngor gan Zoe Pettinger



19-20

TOMOS YN MYND 'AM DRO'

Dau dro gan Tomos, y tiwtor

Rakie Ayola YN DYSGU CYMRAEG

Mae Rakie Ayola yn actores adnabyddus, sy'n dod yn wreiddiol o Drelái yng Nghaerdydd. Mae hi'n actio ar y sgrin ac yn y theatr, ac wedi actio mewn cyfresi teledu fel *Holby City*, *Noughts and Crosses*, *Brexit* a'r gyfres ddiweddar ar y BBC, *The Pact*.

Mae hi hefyd wedi bod ar S4C, yn dysgu Cymraeg gyda'i ffrind a'i mentor, yr actores Eiry Thomas ar 'laith ar Daith'.

Cawson ni gyfle i roi'r byd yn ei le, a chlywed ei hanes yn dysgu'r iaith.

GAWN NI GYCHWYN GYDA DY DDYDDIAU CYNNAR YNG NGHAEADYDD. FAINT O GYMRAEG OEDD YN NHRELÁI BLE CEST TI DY FAGU?

Gwnaethon ni ddysgu pethau syml fel lliwiau, rhifau ac ati yn yr ysgol, Cymraeg syml iawn. Ond yn fy mynd tu allan i'r ysgol, ro'n i'n mynd i'r capel. Ro'n i'n arfer mynd bob dydd Sul, ar fy mhen fy hun. Doedd neb arall o'r teulu yn mynd, ond gwnes i benderfynu yn wyth oed fy mod i eisiau mynd. Ro'n i'n mynd yn selog am saith mlynedd.

Roedd y gwasanaeth yn Saesneg, ond gwnes i ddod ar draws dau deulu oedd yn siarad

Cymraeg yno. Teulu'r gwleidydd Eluned Morgan oedd un ohonyn nhw. Tad Eluned, Bob Morgan, oedd y gweinidog yn y capel.

SUT OEDDET TI YN TEIMLO AM Y GYMRAEG YN IFANC?

Roedd gan y Gymraeg sglein egsoftig i mi - ro'n i'n cysylltu'r iaith gyda'r math o deulu baswn i'n hoffi bod yn rhan ohono. Roedd y teuluoedd ro'n i'n eu gweld yn y capel oedd yn siarad Cymraeg, fel teulu Eluned Morgan, yn deuluoedd mawr, gyda phedwar neu bump o blant ac yn edrych mor hapus. Teuluoedd oedd yn treulio llawer o amser gyda'i gilydd, oedd yn wahanol i fy nheulu i.

Roedd y capel fel ail gartref i mi. Dw i'n cofio peidio â mynd i'r ysgol un bore er mwyn mynd i wasanaeth 'Dydd Mercher Lludw' yn y capel a gadael y lludw ar fy mhen trwy'r dydd yn yr ysgol wedyn. Dyna faint ro'n i'n caru'r lle!

Dw i'n cofio hefyd, ar y pryd, fy mod i wir eisiau bod yn rhan o deulu Eluned. Trwy lygaid plentyn, roedd y teuluoedd mawr yma, oedd yn siarad Cymraeg, i weld yn byw bywyd llawer gwell na mi.

Iaith i bobl eraill oedd y Gymraeg i mi pan o'n i'n ifanc.

GWNEST TI GYFARFOD ELUNED MORGAN, OEDD AR Y PRYD YN WEINIDOG Y GYMRAEG YN LLYWODRAETH CYMRU, YN YSTOD IAITH AR DAITH. SUT BROFIAD OEDD HYNNY?

Roedd yn brofiad emosïynol iawn. Do'n i ddim wir wedi ei gweld hi ers ein dyddiau yn y capel. Gwnes i lwyddo i reoli fy emosïynau tra'n ffilmio, ond unwaith y daeth y ffilmio i ben, gwnes i dorri lawr yn llwyr. Roedd y lle a'r teulu yn bwysig iawn i mi.

Ond gwnaeth hi roi newyddion da i mi fod llawer o deuluoedd yn Nhrelái erbyn hyn yn siarad Cymraeg.

YR ACTORES EIRY THOMAS, SY HEFYD YN FFRIND I TI, OEDD DY FENTOR YN YSTOD IAITH AR DAITH. SUT OEDD HYNNY?

Roedd Eiry yn fentor gwych. Mae hi'n anodd i fi gofio geirfa newydd achos bod geiriau yn diflannu o fy mhen i wneud lle i linellau dw i'n eu dysgu ar gyfer fy ngwaith. Ond roedd hi'n dda iawn yn egluro cysylltiadau rhwng geiriau - fod y gair yna yn gyfuniad o hwn a hwn - ac roedd hynny'n help mawr i gofio.



PAM WYT TI EISIAU SIARAD CYMRAEG?

Mae gen i ffrindiau fel Rhys Ifans, Marc Lewis Jones, Eiry Thomas a llawer mwy sy'n siarad Cymraeg a dw i'n edmygu pobl sy'n gallu siarad mwy nag un iaith. Mae'n iaith mor brydferth - dw i'n ceisio gadael negeseuon llais Cymraeg iddyn nhw ar WhatsApp. Dywedodd Rhys ei fod wrth ei fodd yn gwrandao ar fy negeseuon i achos ei fod yn gallu gweld y wên ar fy wyneb trwy'r iaith.

Dw i hefyd wedi cael digon o ymddiheuro am beidio gallu siarad Cymraeg. Os oes rhywun yn gofyn, 'Wyt ti'n siarad Cymraeg?', mae'r mwyafrif o Gymry di-Gymraeg yn ateb 'Na, ond... dw i'n gallu cyfiri i 10 / mae fy mam-gu yn gallu / gwnes i ei dysgu nes mod i'n 13 oed'. A dw i eisiau ateb trwy ddweud 'Ydw, dw i'n gallu'.


BETH FYDD Y CAMAU NESAF YN DYSGU'R IAITH?

Dw i ddim wedi cael llawer o gyfle i ymarfer ers gwneud 'laith ar Daith' a dw i'n tueddu i rewi os bydd rhywun yn siarad Cymraeg â fi. Ond dw i'n barod i ddechrau eto nawr. Dw i'n mynd i fynd nôl i'r dechrau ar 'SaySomethingInWelsh', a dw i'n mynd i ofyn i Eiry siarad Cymraeg ar y ffôn gyda fi.



Lluniau: S4C a Razia Naqvi-Jukes

Actress Rakie Ayola chats with us about learning Welsh on S4C programme 'laith ar Daith' with her friend, mentor and fellow actress, Eiry Thomas. She also talks about growing up in Cardiff and tells us how she felt about the Welsh language as a child.



RAKIE A'R CYFNOD CLO

"Dw i wedi bod yn lwcus iawn o gael dwy gyfres deledu yn ystod y cyfnod clo ond mae wedi bod yn anodd iawn i lawer yn y diwydiant creadigol. Yn 2019, pedwar cynhyrchiad theatr oedd gen i yn y llyfrau, felly gallai fy sefyllfa i wedi bod yn wahanol iawn."

GWAITH AR Y GWEILL

"Dw i ar ganol ffilmio cyfres newydd 'Alex Ryder' ar gyfer Amazon Prime yn chwarae rhan dirprwy gyfarwyddwr y CIA. Bydda i hefyd yn dechrau ffilmio'r gyfres newydd 'Grace' yn yr hydref. Dw i'n teimlo'n lwcus iawn o'r gwaith dw i wedi ei gael yn ystod y cyfnod anodd yma."

Geirfa



- adnabyddus - renowned
- rhoi'r byd yn ei le - put the world in its place
- mynd yn selog - to attend somewhere regularly
- dod ar draws - to come across
- gwleidydd - politician
- sglein egsoftig - exotic shine
- dydd Mercher Lludw - Ash Wednesday
- rheoli fy emosïynau - control my emotions
- torri lawr yn llwyr - break down completely
- diflannu - disappear
- cyfuniad - combination
- edmygu - admire
- prydferth - beautiful
- mwyafrif - most
- tueddu - tend to
- dirprwy gyfarwyddwr - deputy director

Dysgu Cymraeg o dramor

Dych chi wedi dechrau dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Mae llawer o bobl **o bedwar ban byd** wedi dechrau dysgu yn ein dosbarthiadau rhithiol, ar-lein. Dyma hanes rhai o'r dysgwyr hynny.

JEN BAILEY

Mae Jen yn dod o Awstralia ond mae hi'n byw yn yr Iseldiroedd nawr. **Arweinydd cerddorfa** ydy Jen ond yn ystod y cyfnod clo, mae hi wedi bod yn rhoi gwersi cerddoriaeth ar-lein. Cyn dysgu Cymraeg, roedd Jen yn siarad wyth iaith yn barod. Dyma ei chynghor i unrhyw un sy eisiau dysgu Cymraeg:

"Dw i eisiau annog eraill i ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith cymaint â phosib! Beth am gofrestru ar gwrs gyda dysgucymraeg.cymru darllen cymaint o Gymraeg â phosib, a chofiwch sgwrsio gyda dysgwyr eraill."

GRACE AGUILAR

Mae Grace yn byw yn Lima, Periw ac yn mwynhau dysgu Cymraeg ar-lein. Dechreuodd Grace ddysgu ar ôl clywed yr actor o Gaerdydd, Matthew Rhys, yn siarad Cymraeg, ac ar ôl gwyllo *The Crown* ar y teledu. Mae Grace yn hoffi gwranddo ar gerddoriaeth Gymraeg a gwyllo S4C. Mae Grace yn codi'n gynnar i fynd i'r dosbarth Cymraeg bob wythnos:

"Yn Lima, 'dyn ni 5 awr y tu ôl i Gymru, felly dw i'n gorfod codi'n gynnar i fynd i'r dosbarth, ond mae'n **werth yr ymdrech!** Mae'r gwersi ar-lein yn rhoi cyfle i ddysgwyr fel fi, sy'n byw dramor, i ddysgu Cymraeg."

KRIS DOBYNS

Mae Kris yn byw yng Nghanaada. Mae chwaer Kris, Pegi Talryn, yn byw yng Nghymru. Dechreuodd Kris ddysgu Cymraeg er mwyn siarad yr iaith gyda'i chwaer, sy'n diwtor ac yn awdur Cymraeg. Mae Kris yn mwynhau dysgu Cymraeg ar-lein ac eisiau teithio i Gymru un dydd i ymarfer ei Chymraeg:

"Yn y dosbarth ar-lein, dw i'n mwynhau cyfarfod dysgwyr o wledydd gwahanol. Dw i wedi cyfarfod dysgwyr o Ganada, Ffrainc, Lloegr, a Chymru wrth gwrs. Dw i isio teithio i Gymru er mwyn siarad Cymraeg efo fy chwaer a'i theulu, ac i fwynhau clywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio."



ANN TURNER

Mae Ann yn byw yn Kuwait, ac yn athro Saesneg mewn Prifysgol Americanaidd. Cyn symud i Kuwait, roedd Ann yn byw yn Saudi Arabia a chyn hynny, yn Yr Almaen. Cyn dysgu Cymraeg, roedd Ann yn siarad Ffrangeg, Eidaleg ac ychydig o Arabeg. Mae Ann yn gobeithio symud i Gymru rhyw ddydd:

"Dw i eisiau aros yn Kuwait am flwyddyn neu ddwy, ond dw i'n gobeithio symud i Gymru un dydd. Dw i eisiau parhau i ddysgu Cymraeg - a dw i'n teimlo'n lwcus mod i'n gallu dysgu Cymraeg o Kuwait."

LIZ WILLIAMS

Mae Liz yn dod o Efrog Newydd ond mae hi'n byw yn Awstralia nawr. Dechreuodd Liz ddysgu Cymraeg er mwyn dysgu mwy am hanes ei theulu. Cafodd **hen hen daid** Liz ei eni yng Nghymru, cyn symud i America yn 1886. Mae Liz yn mwynhau siarad Cymraeg gyda'i theulu sy'n byw yng Nghymru ar Skype:

"Mae siarad efo fy rheulu ar Skype yn rhoi cyfle i fi ymarfer fy Nghymraeg. Mae gwyllo S4C ar y teledu, gwranddo ar Radio Cymru a darllen llyfrau Cymraeg wedi bod o help mawr i mi hefyd. Mae angen dal ati, dydy dysgu iaith dros nos ddim yn bosib!"

Since the start of the coronavirus pandemic, learners from across the globe have been learning Welsh online, in virtual classrooms. Jen Bailey, Grace Aguilar, Kris Dobyns, Ann Turner and Liz Williams have all been learning Welsh during lockdown from their homes in the Netherlands, Peru, Canada, Kuwait and Australia. Here, they share with us their reasons for learning Welsh and their plans to visit Wales as soon as it's safe to do so.

Geirfa

o bedwar ban byd - four corners of the earth
arweinydd cerddorfa - orchestral conductor
werth yr ymdrech - worth the effort
hen hen daid - great great grandfather

Dysgu Cymraeg a gweithio drwy COVID-19

Dwy nyrs ydy Rachel Williams a Jacqui Reynolds. Maen nhw wedi gweithio yn ystod y pandemig ac wedi dal ati i ddysgu Cymraeg drwy'r cyfnod yma.

Nyrs **gofal dwys** yn Ysbyty Treforys, Abertawe ydy Rachel. Mae hi'n byw yng Nghastell Nedd gyda'i gŵr, Dean a dau o blant.

Roedd Jacqui Reynolds, sy'n byw yn Aberdâr, wedi ymddeol, ond aeth hi'n ôl i'r gwaith i helpu gyda'r **cynllun brechu**.

Mae gweithio drwy COVID-19 wedi bod yn anodd i Rachel a Jacqui, ond mae dysgu Cymraeg wedi helpu'r ddwy.

Yma, mae Rachel a Jacqui yn rhannu eu profiadau gyda ni...



RACHEL WILLIAMS

Pam dysgu Cymraeg?


Ro'n i eisiau siarad Cymraeg gyda chleifion yn yr ysbyty. Mae'r cleifion sy'n siarad Cymraeg yn hoffi sgwrsio yn Gymraeg. Nawr, dw i'n gallu siarad Cymraeg gyda chleifion a chydweithwyr yn y gwaith bob dydd.

Dych chi'n siarad Cymraeg y tu allan i'r gwaith?

Ydw, dw i'n siarad Cymraeg gyda fy ngŵr, Dean. Mae Dean yn dysgu Cymraeg hefyd. 'Dyn ni'n trio siarad Cymraeg yn y tŷ bob dydd. Mae'n bwysig ymarfer siarad Cymraeg - tipyn bach, bob dydd, ac fe ddaw!

Dych chi'n mwynhau dysgu Cymraeg?

Ydw, dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg. Dw i'n edrych ymlaen at fy nosbarth Cymraeg bob nos Lun. 'Dyn ni'n cael llawer o hwyl ac mae'r tiwtor a'r dysgwyr eraill yn gyfeillgar iawn. Mae gweithio drwy COVID-19 wedi bod yn anodd ond yn y dosbarth, dw i'n gallu anghofio am y gwaith.



JACQUI REYNOLDS

Sut brofiad ydy gweithio ar y cynllun brechu?

Ar y dechrau, roedd angen i mi hyfforddi er mwyn dysgu mwy am y cynllun brechu. Roedd angen i mi ddysgu sut roedden nhw'n gweithio a sut i'w rhoi yn saff. **Nyrs cyn geni** o'n i cyn ymddeol, ond ro'n i'n falch o fynd yn ôl i'r gwaith i gefnogi'r cynllun brechu.

Pa mor aml dych chi'n siarad Cymraeg?

Cyn COVID-19, ro'n i'n mynd â fy ŵyr i Gylch Meithrin. Yn y Cylch Meithrin, ro'n i'n siarad Cymraeg bob wythnos. Yn y gwaith, mae llawer o'r staff sy'n brechu yn siarad Cymraeg felly dw i'n siarad Cymraeg gyda nhw bob dydd.

Dych chi'n mwynhau dysgu Cymraeg?

Ydw, dw i'n falch o fynd i'r dosbarth Cymraeg ar ôl diwrnod caled a blinedig yn y gwaith. Yn y dosbarth, dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg a dysgu mwy am ddiwylliant Cymru. Mae'r tiwtor yn wych a dw i'n mwynhau cwmni'r dysgwyr eraill.

Rachel Williams and Jacqui Reynolds are both nurses and have worked through COVID-19. During this time, they have also continued with their goal of learning Welsh. Here, they tell us what working through COVID-19 has been like and how learning Welsh has helped them through this challenging time.



DROS YR HAF

Dych chi'n hoffi cadw'n heini? Mae Zoe Pettinger yn hoffi cadw'n heini. **Cyn ddawnswraig** ydy Zoe ond mae hi nawr yn diwtor Dysgu Cymraeg.

Mae Zoe wedi gwneud fideos ffitrwydd dawns yn Gymraeg ar [YouTube](#). Beth am wyllo'r fideos neu drïo un o syniadau Zoe dros yr haf...


- Dechreuwch wneud ymarfer corff dych chi'n ei hoffi. Dawnsio oedd fy hoff ymarfer corff i, felly ro'n i'n mynd i ddsbarth Zumba bob wythnos. Do'n i ddim wedi dawnsio ers deng mlynedd, ond gwnes i golli dwy stôn a hanner mewn saith mis!
- Pan o'ch chi'n blentyn, o'ch chi'n hoffi rhedeg, gymnasteg neu ddawnsio? **Rhowch gynnig arall arni!** Does dim angen gwario llawer o arian - beth am gael noson ddawnsio disgo yn y tŷ? Mae'n gallu bod yn brosiect cyffrous i'r teulu i gyd.
- Rhowch gynnig ar rywbeth newydd. Mae llawer o ddsbarthiadau ffitrwydd ar-lein ar gael. Dych chi'n gallu cymryd rhan mewn dosbarth dawnsio bola, codi pwysau, seiclo a llawer mwy. Felly beth am drïo **camp** newydd o'ch cartref?
- Mae cerdded yn gyflym am 10 munud bob dydd yn cryfhau eich coesau, calon ac yn llosgi calorïau. Beth am fynd am dro gyda'r teulu ar ôl swper neu gyfarfod ffrind i fynd am dro? Cofiwch lawrlwytho ap i gyfrif eich camau ac anelu at gyrraedd 10,000 o gamau bob dydd.
- Yn ôl gwyddonwyr, mae dawnsio yn **rhoi hwb** i'r ymennydd. Felly gwrandewch ar gerddoriaeth fywiog a symudwch! Beth am wyllo'r fideos dawns Cymraeg sy ar fy sianel [YouTube](#)?
- Cofiwch fwyta digon o ffrwythau a llysiau. Dw i'n hoffi bwyta **aeron glas** gyda fy uwd bob bore, a dw i'n hoffi bwyta ciwi, mafon a mefus gyda fy iogwrt Kefir. Mae'n iawn hefyd cael trît **o dro i dro**. Dw i'n dwlu ar siocled.
- Wrth fynd o le i le, cofiwch sylwi ar fyd natur o'ch cwmpas. Gwrandewch ar sŵn yr **awel** ac edrychwch ar y blodau o'ch cwmpas. Bydd hyn yn clirio eich meddwl.

- Cofiwch **ganmol** eich hun a dathlu pob **carreg filltir**. Beth am rannu eich taith ffitrwydd gyda theulu, ffrindiau neu ar y cyfryngau cymdeithasol? Byddwch yn **gadarnhaol** ac mi wnewch chi lwyddo.

Do you enjoy being outdoors? Dancer and Learn Welsh tutor, Zoe Pettinger, recorded a series of aerobic dance workout videos in Welsh on her [YouTube](#) channel during lockdown. Here, Zoe suggests some simple activities to help keep active over the summer.

Geirfa

cyn ddawnswraig - former dancer
rhoch gynnig arall arni - give it another go
camp - activity/sport
rhoi hwb - to give a boost
aeron glas - blueberries
o dro i dro - from time to time
awel - breeze
canmol - to praise
carreg filltir - milestone
cadarnhaol - positive



Geirfa

gofal dwys - intensive care
cynllun brechu - immunisation programme
nyrs cyn geni - neonatal nurse



Garddio gydag Adam

Geirfa



- gwywo - to wilt
- blaguro - to flower
- cychod gwenyn - beehives
- hau - to sow
- pryfed hofran - hovering flies
- peillio - to pollinate

Dych chi'n hoffi garddio? Mae Adam Jones yn hoffi garddio yn fawr iawn. Mae Adam yn byw yng Ngorlas, Sir Gaerfyrddin ac yn garddio ers 15 mlynedd.

Yn 2018, dechreuodd Adam rannu tips garddio ar Instagram. Nawr, mae 17,300 o bobl yn dilyn [Adam yn yr Ardd](#) ar Instagram. Mae Adam yn rhannu tips garddio ar BBC Radio Cymru a rhaglen Prynawn Da ar S4C hefyd.

Mae Adam wedi gwneud fideos garddio i ddysgwyr. Yn y fideos, mae Adam yn dangos sut i groesawu pobl i'r ardd yn Gymraeg ac yn dysgu enwau llysiau yn Gymraeg. Ewch draw i sianel [YouTube](#) Adam i ddysgu mwy am arddio yn Gymraeg.

Diolch i Adam am sgwrsio gyda ni...

PAM DECHRAU GARDDIO?

Dw i'n cofio garddio yng ngardd fy nhad-cu pan o'n i'n dair oed. Dw i'n cofio treulio oriau yn cerdded o gwmpas yr ardd gydag e. Ro'n i'n aml yn dwyn mefus a mafon oddi ar y planhigion. Ers blynyddoedd, mae garddio wedi bod yn rhan o fy mywyd bob dydd.

BETH YW'R PETH GORAU AM ARDDIO?

Pan dw i'n garddio, dw i'n ymlacio. Yn yr ardd, dw i'n hoffi teimlo'n agos at natur. Dw i'n hoffi clywed yr adar yn canu. Dw i'n hoffi gweld planhigion yn tyfu a bywyd newydd yn datblygu.

BETH YW DY GYNGOR I RYWUN SY'N GARDDIO AM Y TRO CYNTAF?

Ewch amdani! Peidiwch â bod ofn gwneud camgymeriadau. Weithiau, bydd planhigion yn tyfu a weithiau byddan nhw'n gwywo. Ond dim ots, dyna ran o'r hwyl. Dros y blynyddoedd, dw i wedi lladd llawer o blanhigion ond mae tyfu rhai newydd bob amser yn bosib.



OES GEN TI HOFF DYMOR YN YR ARDD?

Dw i'n hoffi'r gaeaf yn yr ardd. Yn y gaeaf, dw i'n gallu paratoi ar gyfer y tymor newydd. Ond fy hoff dymor yw'r gwanwyn. Yn y gwanwyn, dw i'n hoffi gweld y coed yn **blaguro** a'r bywyd newydd yn dod yn ôl i'r tir.

BETH NESAF I ADAM YN YR ARDD?

Cyn hir, dw i'n mynd i ddatblygu gwaelod yr ardd. Dw i'n gobeithio plannu blodau, tyfu mwy o lysiau ac adeiladu *decking* i fwynhau gweld y blodau a'r llysiau yn tyfu dros yr haf. Dw i hefyd yn creu **cychod gwenyn** newydd a dw i'n gyffrous iawn am hynny.

PAM GWNEUD FIDEOS GARDDIO I DDYSGWYR?

Dros y blynyddoedd, dw i wedi mwynhau cymryd rhan mewn digwyddiadau i ddysgwyr. Roedd y dysgwyr mor frwdfrydig, felly ro'n i eisiau rhannu'r iaith sy gyda fi am yr ardd â phobl newydd. Mae'r **fideos** yn ddwyieithog ac yn cynnwys geirfa felly ewch draw i gael golwg.

Experienced gardener Adam Jones shares some of his tips with us and explains where his passion for gardening comes from. Adam has recently created gardening videos for Welsh learners, which can be seen on his [YouTube](#) channel.

Tasgau i'w gwneud yn yr ardd dros yr haf:

- Tyfwch ddail salad. Dych chi'n gallu tyfu dail salad mewn potyn wrth y drws cefn. Bydd angen **hau** dau botyn 10 litr gyda dail letys 'torri a thyfu'. Bydd angen hau un potyn bythefnos ar ôl y llall. Wrth wneud hyn, cewch chi ddigon o ddail salad dros yr haf.
- Peidiwch â thorri un rhan o'r ardd gyda'r peiriant torri gwair, er mwyn rhoi cyfle i flodau gwyllt dyfu. Wrth wneud hyn, mi ddaw gwenyn, **pryfed hofran** a phili palod i **beillio** yno.
- Ewch am dro gyda phaned i'r ardd a sylwi ar beth sy'n byw a thyfu yno. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi feddwl a chynllunio'r ardd. Meddyliwch pa blanhigion fasai'n tyfu orau mewn rhannau o'r ardd. Meddyliwch oes angen symud neu newid pethau - dyna ran o'r hwyl.

EISIAU DDYSGU MWY?

Os dych chi'n hoffi garddio ac eisiau clywed mwy gan Adam, beth am ei ddilyn ar [Instagram](#)? Mae Adam hefyd ar [Facebook](#), [Twitter](#) neu ewch draw i'w sianel [YouTube](#) i wyllo'r fideos garddio i ddysgwyr.



Coginio gyda Nerys Howell

Mae'r cogydd Nerys Howell wedi ysgrifennu llyfr newydd sbon, *Bwyd Cymru yn ei Dymor / Welsh Food by Season*. Mae'r llyfr dwyieithog yn cynnwys ryseitiau blasus ar gyfer pob tymor o'r flwyddyn.

Diolch i Nerys am y sgwrs, ac am rannu rysâit salad ar gyfer yr haf gyda ni...

O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?

Ges i fy magu yn y Rhondda ond mae fy ngwreiddiau yng Ngorllewin Cymru. Ro'n i'n mynd ar fy ngwyliau at fy mam-gu a thad-cu bob haf. Ro'n i'n helpu mam-gu i gasglu wyau a bwydo lloi. Ro'n i'n deall y cysylltiad rhwng tir a bwyd yn ifanc iawn.

Ble dych chi'n byw nawr?

Dw i'n byw yng Nghaerdydd ers 25 mlynedd.

Beth ydy eich gwaith?

Dw i'n rhedeg busnes. 'Dyn ni'n datblygu ryseitiau a bwydleni, yn steilio bwyd ar gyfer ffotograffiaeth ac yn cynnal cyrsiau hyfforddi yn annog pobl i ddefnyddio bwyd a diod lleol. 'Dyn ni hefyd yn mynd i ffeiriau masnach bwyd. 'Dyn ni wedi bod mewn ffeiriau yn Hong Kong, Efrog Newydd, Sydney, San Francisco ac Ewrop. Dw i hefyd yn gwneud eitemau coginio ar Prynawn Da ar S4C ers bron i 25 mlynedd!

Dych chi'n mwynhau eich gwaith?

Dw i wrth fy modd! Dw i'n gwneud rhywbeth gwahanol bob dydd.

Beth yw eich hoff bryd bwyd?

Mae gen i ddant melys ac un peth dw i'n hoff iawn ohono ydy siocled.

Beth yw'r cynhwysyn mwyaf defnyddiol?

Y winwnsyn syml. Mae e mewn llawer o ryseitiau ac mae sawl ffordd o'i goginio. Yn gyfan, ble mae'n troi'n felys neu wedi ei goginio yn araf, ble dych chi'n ei garameliddio gydag ychydig o siwgr. Neu dych chi'n gallu ei ffrio yn gyflym mewn stir-fry, gan gadw ychydig o'r crunch.

Beth yw'r teclyn mwyaf defnyddiol yn eich cegin?

Un o fy hoff declynnau ydy'r zestiwr *Microplane*. Mae'r croen yn disgyn i ffwrdd yn daclus, nid fel gratiwr ble mae hanner y croen dal ar ôl ar y gratiwr!

Ble mae eich hoff fwyty?

Ges i fynd i'r Beach House ym Mae Oxwich yn y Gŵyr ar ben-blwydd arbennig, ac roedd yn arbennig iawn. Hywel Griffiths ydy'r cogydd yno, cogydd o fri. Mae'n defnyddio cynnyrch lleol iawn. Mae'n coginio yn arbennig o dda. Mae hefyd mewn lleoliad hyfryd yn edrych mas dros y môr o Fae Oxwich.

Pwy yw eich hoff gogydd?

Raymond Blanc ydy un o fy hoff gogyddion. Dw i'n hoffi ei ffordd o goginio. Dyw e ddim yn defnyddio llawer o hufen a menyng ac yn y blaen. Mae'n deall cydbwysedd mewn pryd bwyd ac mae lot o'i brydau yn ysgafn.

Chef Nerys Howell talks to us about her career and tells us who her favourite chef is, and where she likes to dine. Here, we've featured a recipe from her latest book, *Bwyd yn ei Dymor / Welsh Food by Season*.

Geirfa

- fy ngwreiddiau - my roots
- lloi - calves
- tir - land
- bwydleni - menus
- cynnal cyrsiau hyfforddi - hold training courses
- annog - to encourage
- ffeiriau masnach bwyd - food trade fairs
- dant melys - sweet tooth
- cynhwysyn - ingredient
- winwnsyn (nionyn in the north) - onion
- teclyn - appliance/gadget
- cogydd o fri - talented chef
- cydbwysedd - balance

SALAD BRITHYLL WEDI'I FYGU, FFFENIGL AC AFAL

Mae'r pryd o fwyd yma'n iawn fel cinio ysgafn neu fel cwrs cyntaf gyda bara.

Ar gyfer pedwar person.

Cynhwysion

- 250g o frithyll wedi'i fygu
- Croen a sudd un lemwn
- Un bylb o ffenigl
- Un afal gwyrdd
- 150g o radish
- Berw dŵr

Y dresin

- Tair llwy fwrdd o hufen sur
- Dwy lwy fwrdd o saws rhyddugl
- Dwy lwy fwrdd o olew had rëp
- Halen a phupur

Dull

- Torrwch y bylb ffenigl yn denau.
- Cymysgwch y bylb ffenigl gyda chroen y lemwn, a hanner y sudd.
- Torrwch yr afal yn chwarteri.
- Cymysgwch y ffenigl, yr afal, y radish a'r berw dŵr yn dda.
- Cymysgwch bopeth ar gyfer y dresin gyda gweddill y sudd lemwn.
- Rhowch ychydig o'r dresin ar blatiau, a rhowch y salad ar ben y dresin.
- Torrwch y brithyll yn ddarnau, a rhowch y brithyll ar ben y salad.
- I orffen, rhowch weddill y dresin ar y top.



Y TREIGLAD OLAF

Yr awdur a'r tiwtor Cymraeg, Pegi Talfryn sy wedi ysgrifennu stori arbennig ar gyfer cylchgrawn Hwyl yr Haf.

Ces i fy newis i fynd i safle'r **drosedd** gan y Ditectif Sarjant. Ro'n i wrth fy nesg pan ddaeth yr alwad. Daeth e ata i a dweud, 'mae **cefnidir**' da ti yn y maes. Byddi di'n deall y sefyllfa'n well na neb.'

Pan ymunais i â'r Heddlu, roedd y disgrifiad swydd am ditectif yn dweud 'Cymraeg yn **ddymunol**.' Ro'n i wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol, ond do'n i ddim yn teimlo'n **hyderus**. Felly ymunais i â chwrs Dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg gyda'r **nod** o fod yn ditectif.

Treuliais i ddwy flynedd yn mynd i ddosbarthiadau nos ddwywaith yr wythnos. Dwy flynedd o waith caled. Doedd dim amser gyda fi i fywyd personol. Collais i nosweithiau yn gwneud y gwaith cartre, yn astudio ar-lein a methu cysgu gyda'r iaith a'r treigladau'n dawnsio hip hop yn fy mhen.

Gwenda Gramadeg oedd y tiwtor. Roedd hi'n fenyw galed. Doedd hi ddim yn **cydymdeimlo** gyda phobl fel fi oedd yn gweithio llawn amser ac yn gwneud eu gorau i gadw lan gyda'r gwaith. Roedd hi'n barod iawn i **weld bai** ar bobl fel fi, ac yn barod iawn i **ganmol** ei **ffefrynnau**.

Baswn i wedi gadael y dosbarth, ond roedd y swydd Ditectif yn galw amdana i, a ro'n i'n gwybod basai pasio arholiad Uwch yn fy helpu ar y ffordd.

Do, **llwyddes** i i basio'r arholiad a dw i wedi dechrau gweithio fel ditectif. Ond dw i'n dal i gael **hunllefau** am Gwenda Gramadeg.

Mae'n debyg bod trosedd **ddifrifol** wedi digwydd yn y Ganolfan. Maen nhw'n cynnal rhyw fath o barti pen-blwydd yn bump oed yno heno.

Rhywun wedi cael ei **anafu**, neu efallai wedi cael ei ladd oedd y neges ddaeth i'r swyddfa. Dyna pam mae'r Sarjant wedi fy newis i i fynd. Dw i'n nabod y safle, a dw i'n nabod y staff.

Ladd tiwtor? Oes siawns bod rhywun wedi lladd tiwtor? Pwy fasa'i'n lladd tiwtor Cymraeg?

Beth sy wedi digwydd yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg? Bydd cyfle i chi ddatrys y dirgelwch mewn digwyddiad arbennig yn yr Eisteddfod AmGen, 'Noson Whodunnit' rithiol. Mae dwy sesiwn yn cael eu cynnal:

Nos Fawrth, 3 Awst - Canolradd ac Uwch.

Nos Fercher, 4 Awst - Mynediad 2 a Sylfaen.

Gallwch gofrestru [yma](#).

What's happened in the Learn Welsh Centre? Join us to solve the mystery in a virtual 'Noson Whodunnit' held during the Eisteddfod AmGen. Register your place [here](#).



EISTEDDFOD AMGEN

Bydd yr Eisteddfod AmGen yn cael ei chynnal yn **rhithiol** rhwng 31 Gorffennaf - 7 Awst ac mae llawer o weithgareddau wedi'u trefnu i ddysgwyr. Bydd 'Noson Whodunnit' ar nos Fawrth a nos Fercher, cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn a gig gan y grŵp Pedair. Hefyd, bydd Sgwrs Dros Baned yn cael ei chynnal gyda **siaradwr gwadd** gwahanol am 10.30 o'r gloch bob bore. Y siaradwyr gwadd fydd Mererid Hopwood, Laura McAllister, Lily Beau, Myrddin ap Dafydd ac enillydd Dysgwr y Flwyddyn. Dych chi'n gallu ymrestru ar gyfer Sgwrs Dros Baned [yma](#).

Geirfa

trosedd - a crime
cefnidir - background
dymunol - desirable
hyderus - confident
nod - an aim
cydymdeimlo - to sympathise
gweld bai - to find fault
canmol - to praise
ffefryn(nau) - favourite(s)
llwyddo - to succeed
hunllef(au) - nightmare(s)
difrifol - serious
anafu - to hurt, to injure
rhithiol - virtual
siaradwr gwadd - guest speaker

Defnyddio'r Gymraeg with ddarllen

Dych chi'n hoffi darllen? Dych chi'n hoffi darllen yn Gymraeg? Mae darllen yn ffordd wych o ymarfer y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

CYFRES AMDANI

Dych chi wedi darllen cyfres Amdani? Cyfres o lyfrau ar wahanol lefelau i ddysgwyr ydy cyfres Amdani. Dych chi'n gallu prynu'r llyfrau yn eich siop lyfrau leol neu ar [gwales.com](#). Mae rhai o'r llyfrau ar gael trwy blatfform e-lyfrau [ffolio.cymru](#).

Mae pedwar llyfr newydd yng nghyfres Amdani. Dyma wybodaeth am bob un...

Blacmêl

Awdur - Pegi Talfryn
Lefel - Mynediad
Dyma stori ditectif sy'n dilyn hanes Elsa Bowen. Ditectif preifat ydy Elsa Bowen ac mae hi'n byw yng Nghaernarfon. Mae rhywbeth yn digwydd yng Nghaernarfon. Mae Arfon Davies, maer tref Caernarfon, mewn trwbl...

Gorau Glas

Awdur - Lois Arnold
Lefel - Mynediad
Dyma stori am blismones o'r enw Alix Jenkins. Mae Alix yn gweithio yn nhref Aberglas ac mae pob dydd yn wahanol.

Chwedlau Cymru: Ceffylau

Awdur - Fiona Collins
Lefel - Mynediad
Yn y llyfr yma, mae chwedlau am bobl enwog yn hanes Cymru - fel y Brenin Arthur. Mae'r chwedlau'n dod o Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Castell-nedd, Port Talbot a Dyfed. Dych chi'n gallu darllen chwedl am eich ardal chi.

Cariad Pur

Awdur - Pegi Talfryn
Lefel - Canolradd
Dyma stori am diwtor Cymraeg o'r enw Sara. Mae grŵp o bobl yn symud i fyw i Wynedd, ac eisiau dysgu Cymraeg. Mae **arweinydd** y grŵp, Paul yn gofyn i Sara ddysgu Cymraeg i'r grŵp. Mae Sara'n gweld Paul yn **ddeniadol** iawn! Ydy Sara wedi dod o hyd i'r bywyd perffaith yn y gymuned newydd?

DEUNYDDIAU DARLLEN ERAILL YN GYMRAEG

Dych chi hefyd yn gallu mwynhau darllen cylchgronau, papurau newydd a gwefannau yn Gymraeg. Dyma restr ohonynt...

BBC Cymru Fyw

Dych chi'n gallu darllen erthyglau a chyfweiliadau ar [BBC Cymru Fyw](#).

Golwg

Cylchgrawn newyddion wythnosol ydy Golwg. Dych chi'n gallu prynu Golwg yn eich siop lyfrau leol. Mae gwefan [Golwg 360](#) hefyd ar gael.

Lingo

Cylchgrawn i ddysgwyr ydy Lingo. Mae Lingo yn cynnwys erthyglau hawdd eu deall, straeon, newyddion a rhestrau o eiriau newydd.

Parallel.cymru

Mae gwefan [parallel.cymru](#) yn cyhoeddi erthyglau Cymraeg a Saesneg diddorol, ochr yn ochr â'i gilydd. Mae sain gyda sawl erthygl, felly dych chi'n gallu gwrandao a darllen ar yr un pryd.

Do you enjoy reading? Reading can be a great way of practising your Welsh. Here, we list the latest books from the Amdani series, and suggest other interesting reading materials.



Sôn am Lyfra'

Mae'r blog [Sôn am Lyfra'](#) yn cynnwys adolygiadau dwyieithog o lyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc. Mae llawer o'r llyfrau yn addas i ddysgwyr, achos bod yr iaith yn haws a'r llyfrau yn fyrrach. Cliciwch ar y categori oedran 12-14 i chwilio am lyfrau addas.

Bethan Gwanas yn mwydro am lyfrau

Mae'r awdur a'r tiwtor Dysgu Cymraeg, Bethan Gwanas yn adolygu llyfrau. Ewch draw i'w gwefan, [Bethan Gwanas yn mwydro am lyfrau](#), i ddarllen rhai o'r adolygiadau.

Liz Learns Welsh

Mae'r ddysgwraig a'r newyddiadurwraig, Liz Day yn ysgrifennu blog o'r enw [Liz Learns Welsh](#). Yn y blog, mae Liz yn adolygu llyfrau i ddysgwyr.

Papur Bro

Pa bapur bro sy yn eich ardal chi? Ym mhob papur bro, mae newyddion a digwyddiadau lleol. Beth am ddarllen copi i weld faint dych chi'n ei ddeall?

Geirfa

arweinydd - leader
deniadol - attractive
mwydro - going on about



DIWRNOD YM MYWYD IFAN JONES EVANS

Mae Ifan Jones Evans yn byw mewn ardal hyfryd o Gymru rhwng Pont-rhyd-y-groes a Phontarfynach yng Ngheredigion. Mae e'n byw gyda'i wraig, Gwawr a'u tri o blant - Heti, Jos a Defi. Mae Ifan yn dod o deulu amaethyddol, ac yn ffermio defaid a gwartheg ar fferm fynydd. Mae e hefyd yn gyflwynydd ar S4C a BBC Radio Cymru.

Cychwynnodd ei yrfa yn cyflwyno 14 mlynedd yn ôl ar un o raglenni plant S4C. Erbyn hyn mae'n gweithio ar raglenni teledu fel Cefn Gwlad a Fferm Ffactor ac mae e'n cyflwyno'n fyw o ddiwyddiadau fel Y Sioe Fawr. Mae rhaglen gyda fe bob prynhawn Llun - Iau ar BBC Radio Cymru, Rhaglen Ifan Evans.

Yma, mae e'n rhannu trefn ei ddiwrnod gyda ni...

5:00YB

Yn yr haf, dw i'n codi gyda thoriad y wawr. Mae'n braf gallu codi gyda'r haul. Er, yn y gaeaf, dw i dal i fyny erbyn tua 6:30yb i ddechrau ar waith y dydd.

5:15YB

Ar ôl cael tamaid bach o frecwast, fy swydd gyntaf ydy bwydo'r cŵn a checio'r stoc o gwmpas y fferm - sicrhau bod y gwartheg yn iawn ac nad oes un ohonynt wedi torri allan i gaeau cyfagos. Yn yr haf, efallai y bydda i'n cael criw o ddefaid mewn i'w dosio neu, os bydd y tywydd yn dda, yn torri cae silwair.

Pan dych chi'n ffermio, mae lot yn dibynnu ar y tywydd, ac mae'n rhaid cynllunio ymlaen a meddwl beth allwch chi ei wneud yn ôl y tywydd.

12:00YP

Yn ôl i'r tŷ i gael cinio. Fydda i ddim yn stopio am baned ganol bore, na chanol pnawn a dweud y gwir! Mae'n braf ar hyn o bryd gan fod Gwawr, fy ngwraig, adref ar gyfnod mamolaeth gyda Defi bach, felly dw i'n cael cwmni i fwyta fy nghinio. 'Dyn ni ddim yn deulu sy'n cael cinio poeth - alla i ddim meddwl am ddim byd gwaeth yn yr haf! Mae rhyw frechdan fach a phaced o greision neu salad yn ddigon i mi.

Dw i'n cael e-bost ganol y bore gan griw cynhyrchu y rhaglen radio, yn egluro beth fydd ar y rhaglen, pwy ydy'r gwesteion, rhestr chwarae ac ati felly bydda i fel arfer yn cael golwg ar hwnnw tra'n bwyta fy nghinio. Mae'n braf cael syniad o beth sy'n fy nisgwyl cyn cyrraedd y stiwdio.

12:30YP

Ar ôl cinio, bydda i'n mynd i stiwdio'r BBC yn Aberystwyth. Mae'r daith tua hanner awr, ac mae'n rhoi amser i mi ddechrau paratoi'n feddyliol ar gyfer y rhaglen.

1:00YP

Ar ôl cyrraedd, bydda i'n edrych ar gynnwys y rhaglen mewn mwy o fanylder a gweld oes angen paratoi unrhyw beth.

2:00 - 5:00YP

Ar yr awyr yn darlledu'n fyw. Mae'r amser yn hedfan a dw i wrth fy modd yn cael sgwrsio gyda phob math o bobl.

5:10YP

Gadael y stiwdio a mynd adre.

6:00 - 6:30YH

'Dyn ni'n cael swper tua 6:00-6:30yh. Wedyn, yn yr haf dw



i'n mynd yn ôl allan ar ôl swper i wneud ambell job rownd y lle ac mae'r plant yn dod 'da fi fel arfer i checio'r gwartheg ac ati.

7:30YH

Rhoi'r plant yn eu gwllau ac yna rhoi'r byd yn ei le gyda Gwawr cyn dechrau diwrnod arall newydd.



Ifan Jones Evans is a TV and radio presenter. He lives on a farm with his wife and three children and presents a radio show every Monday - Thursday afternoon on BBC Radio Cymru. In this article, he shares a typical day in his life with us, from feeding the dogs and checking the cattle to presenting live for three hours on the radio.

Geirfa

- amaethyddol - agricultural
- cyflwynydd - presenter
- gyrfa - career
- cyflwyno'n fyw - presenting live
- toriad y wawr - crack of dawn
- cyfagos - nearby
- dosio - dosing
- silwair - silage
- cyfnod mamolaeth - maternity leave
- criw cynhyrchu - production team
- mwy o fanylder - more detail
- rhoi'r byd yn ei le - put the world to rights



Tomos yn mynd 'AM DRO'



Dych chi'n hoffi mynd am dro? Dych chi wedi gweld rhaglen deledu 'Am Dro' ar S4C?

Gwnaeth Tomos Hopkins, sy'n diwtor Dysgu Cymraeg, gymryd rhan yn 'Am Dro' ac ennill mil o bunnoedd.

Yn y rhaglen, roedd pedwar tro gwahanol. Aeth Tomos am dro yn Sir Benfro. Roedd y troeon eraill ym **Mhenrhyn Gŵyr**, Parc Margam a Llangollen.

Wnest ti fwynhau cymryd rhan yn 'Am Dro'?

Do, gwnes i fwynhau cymryd rhan yn 'Am Dro'. Gwnes i fwynhau'r cerdded ac wrth gwrs, gwnes i fwynhau cwrdd a sgwrsio gyda phobl newydd.

Wyt ti'n hoffi cerdded ar yr arfordir neu yng nghefn gwlad?

Dw i'n hoffi cerdded ar yr arfordir achos dw i'n hoffi traethau a'r môr. Dw i'n hoffi nofio yn y môr. Mae nofio yn y môr yn dda i'r corff.

Wyt ti wedi gwario'r mil o bunnoedd?

Mae'r arian yn saff yn y banc. Dw i'n dod o Geredigion felly dw i'n hoffi **cynilo**!

Tro nesaf dych chi'n mynd am dro, beth am ddefnyddio'r geiriau yma?

- graddol - gradual
- serth - steep
- mynyddig - mountainous
- gwastad - flat
- hamddenol - leisurely
- heriol - challenging
- mwdlyd - muddy
- trefol - urban

Mynd 'Am Dro' eto

Bydd cyfres newydd o 'Am Dro' ar y teledu cyn bo hir. Dych chi eisiau cymryd rhan yn 'Am Dro'? Mae 'Am Dro' yn chwilio am bobl i gymryd rhan. Cysylltwch gydag amdro@cardiffproductions.co.uk

Gwers 'Mynd am Dro'

Os dych chi wedi mwynhau'r erthygl hon, beth am gwblhau ein **gwers gyfoes**. [Mynd am Dro?](#)

Mae'r wers, sy'n trafod mynd am dro ac yn cyflwyno geirfa newydd, yn addas i ddysgwyr ar lefel Uwch.

Troeon Tomos

Mae Tomos yn byw yn Sir Benfro ond yn dod o Geredigion. Yma, mae Tomos yn rhannu dau dro gyda ni. Mae un tro yn Sir Benfro a'r llall yng Ngheredigion. Os dych chi'n mynd i Sir Benfro neu Geredigion dros yr haf, beth am ddilyn troeon Tomos?

Tro Sir Benfro

Ble: Porthgain

Hyd y tro: Pedwar milltir

- Parciwch ym maes parcio Porthgain (SA62 5BN).
- Dringwch y grisiau ar ochr chwith yr harbwr.
- Dilynwch llwybr yr arfordir am tua dwy filltir.
- Byddwch yn ofalus ar y llwybr, mae llawer o **glogwyni** uchel yno.
- Ar y dde, byddwch chi'n gweld tywod Traeth Llyfn os yw'r **llanw** yn isel. Oddi yma, mae grisiau yn mynd i lawr at y traeth.
- Cyn bo hir byddwch chi'n gweld tŵr uwchben Abereiddi.
- Byddwch chi'n cyrraedd **Y Morlyn Glas**, mae golygfeydd gwych o'r clogwyni yma.
- Cerddwch tuag at y maes parcio a'r toiledau yn Abereiddi.
- Dilynwch **saethau'r** llwybr melyn i fyny **llethr** byr.
- Ymunwch gyda'r llwybr **gwair llydan** sy'n arwain tuag at y tir.
- Cerddwch yn syth ar draws y cae ac ewch dros y **gamfa**.
- Dilynwch y llwybr yn ôl i Borthgain.

Mwy o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth a map o'r tro ar wefan yr [Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#).

Tro Ceredigion

Ble: Ystad Llanerchaeron

Hyd y tro: Un milltir

- Parciwch ym maes parcio Llanerchaeron (SA48 8DG).
- Ar ôl mynd trwy Dderbynfa'r Ymwelwyr, ewch tuag at brif **rodfa'r** stad.
- Cerddwch i fyny'r brif rodfa nes i chi weld arwydd a llwybr tuag at y goedwig.
- Ar ôl mynd i mewn i'r goedwig, dilynwch y llwybr sy'n mynd i'r chwith. Mae'r llwybr yma'n mynd â chi drwy'r ardd **rhedyn**. Arhoswch ar y llwybr yma.
- Cyn bo hir, byddwch chi'n cyrraedd yr ardd rhedyn.
- Byddwch yn ail-ymuno â'r llwybr sy'n mynd â chi drwy'r ardd ac at y llyn. Dilynwch y llwybr sy'n mynd ar hyd ochr dde y llyn.
- Ar ôl mynd o gwmpas y llyn, dewch yn ôl at y prif lwybr. Ail **droediwch** eich camau yna ewch ar hyd y llwybr ar eich llaw dde. Bydd y llwybr yma yn eich arwain at yr ardd rhedyn, ac at y drws i'r **ardd furiog**.
- Cerddwch drwy'r ardd furiog a heibio i'r tai gwydr. Ewch drwy'r drws sydd yn y **pendraw** ar y chwith. Mae'r drws yma yn mynd â chi mewn i'r fferm.
- Ar ôl mynd drwy'r drws, cerddwch ymlaen gan gadw'r adeiladau ar eich llaw chwith.
- Ewch heibio adeiladau'r fferm, ac ar ôl pasio **cwrt y stablau**, byddwch yn **dychwelyd** i'r prif lwybr yn ôl mewn i'r stad. Byddwch yn gorffen yn y maes parcio.

Mwy o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth a map o'r tro ar wefan yr [Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#).

Geirfa

- Penrhyn Gŵyr** - Gower Peninsula
- cynilo** - to save money
- gwers gyfoes** - contemporary lesson
- clogwyni** - cliffs
- llanw** - tide
- Y Morlyn Glas** - Blue Lagoon
- saethau** - arrows
- llethr** - slope
- gwair llydan** - wide grass
- camfa** - stile
- rhodfa** - avenue
- rhedyn** - fern
- troedio** - to tread
- gardd furiog** - walled garden
- pendraw** - far end
- cwrt y stablau** - stable courtyard
- dychwelyd** - to return

Learn Welsh tutor Tomos Hopkins recently won £1,000 in the 'Am Dro' programme on S4C. Tomos shares two of his favourite walks with us, one in Ceredigion and the other in Pembrokeshire.

Daniela'n defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith



Dyma Daniela Schlick. Mae Daniela yn dod o'r Almaen ond yn byw yng Nghymru nawr. Mae Daniela wedi dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ei gwaith bob dydd. Dewch i ddysgu mwy amdani...

O le wyt ti'n dŵad?

Dw i'n dod o Saxony yn yr Almaen. Mi wnes i symud i Gymru yn 2015.

Lle wyt ti'n byw?

Dw i'n byw ym Methesda ger Bangor.

Sut wnest ti ddechrau dysgu siarad Cymraeg?

Ro'n i'n dŵad ar fy ngwyliau i Gymru ac wrth fy modd efo'r wlad a'r iaith. Ro'n i wedi dysgu rhai geiriau bach fel 'diolch' a 'bore da'.

Wedyn, mi wnes i **benderfynu** mod i isio dŵad yn ôl am **gyfnod** hirach a dysgu Cymraeg yn iawn. Felly mi ddes i yma dros yr haf am gyfnod o ddwy flynedd ac wedyn mi wnes i adael fy swydd a fy ffla yn Berlin, a symud i Gymru i fyw! A dw i yma o hyd.

Sut wnest ti ddechrau defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth?

Jysd trwy wneud y pethau bach i ddechrau - archebu coffi, yn y gwaith, ar y ffôn. Brawddegau bach i ddechrau. Roedd sesiwn paned a sgwrs yn Palas Print (siop lyfrau yng Nghaernarfon) yn help mawr. Mae'n bwysig cychwyn pob sgwrs yn Gymraeg i gael ymarfer.

Be arall faset ti'n argymhell?

Mi wnes i ymuno efo côr i ddysgwyr, 'Côr dros y Bont', a chael cyfle i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd cael **profiad** o fynd i'r Eisteddfod

yn werthfawr iawn - profiad o rywle hollol Gymraeg. Doedd dim opsiwn ond siarad Cymraeg, a does neb yn disgwyl i chi siarad Saesneg.

Ac rwyt ti erbyn hyn yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg?

Ydw. Mi ges i swydd efo Mentrau Iaith Cymru yn 2018 ac mae fy ngwaith i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i'n **cydlynu** cynllun 'Helo Blod Lleol', sy'n helpu busnesau i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Mae gen i 10 swyddog yn gweithio efo mi ar y cynllun **ledled Cymru**. Dw i'n falch iawn o gael defnyddio'r iaith trwy'r dydd, bob dydd (bron!).

Oes yna unrhyw beth wyt ti'n ei gollu am yr Almaen?

Dw i'n methu'r bara! Dydy bara Cymru ddim yr un peth. Mae bara yn feddal iawn yma!

Be ydy dy ddiddordebau?

Dw i'n hoff iawn o gerdded mynyddoedd ac ar lan y môr. Dw i'n lwcus iawn bod mynyddoedd y Carneddau ar **stepen fy nrws**. Dw i'n mynd allan bron bob dydd am dro bach. Dw i hefyd yn mwynhau garddio a helpu pobl eraill efo'r Gymraeg.

Be ydy dy hoff lyfr?

Mi wnes i fwynhau 'Golygon' gan Manon Steffan Ros yn fawr iawn.



Be ydy dy hoff air Cymraeg?

Dw i wir yn hoffi 'awel'. Dw i'n licio'r sŵn a dw i'n licio'r ystyr. Rhywbeth dw i'n hoffi am yr iaith Gymraeg, sy hefyd yn wir am yr Almaeneg, ydy bod yr iaith yn gallu **cyfleu ystyr** gair yn dda.

Disgrifia dy hun mewn tri gair

Penderfynol, positif a **mentrus**. Dw i'n credu mewn **rhoi cynnig ar bethau**. Os nad dach chi'n rhoi cynnig arni, dach chi byth yn mynd i wybod.

Daniela Schlick is originally from Germany. She used to come to Wales on holiday and fell in love with the country and the language. She knew some words such as 'bore da' and 'diolch' but decided she wanted to learn more and moved to Wales in 2015. She is now working through the medium of Welsh, co-ordinating a national programme to encourage more small businesses to use Welsh, 'Helo Blod Lleol'. She would encourage anyone learning Welsh to make the most of every opportunity to use the language and to attend social events, such as 'paned a sgwrs' - cuppa and chat sessions.

Geirfa

- penderfynu** - decide
- cyfnod** - period (of time)
- argymhell** - recommend
- profiad** - experience
- gwerthfawr** - valuable
- trwy gyfrwng** - through the medium of
- cydlynu** - to coordinate
- ledled Cymru** - across Wales
- stepen fy nrws** - my doorstep
- awel** - breeze
- cyfleu ystyr** - convey meaning
- penderfynol** - determined
- mentrus** - adventurous
- rhoi cynnig ar bethau** - to give things a go

Canu yn Gymraeg am y tro cyntaf

Fe ddechreuodd y gantores **Dionne Bennett** ddysgu Cymraeg gyda ni ym mis Tachwedd 2020. Ar ddiwedd ei blwyddyn gyntaf ar y cwrs 'Mynediad' i ddechreuwyd, dyma ddal fyny gyda hi.

Sut mae hi wedi mynd dros y flwyddyn ddiwethaf yn dysgu Cymraeg?

Dw i'n sicr nawr yn deall mwy, ac yn gallu dilyn sgwrs pan fydd criw yn siarad Cymraeg. Mae'n eithaf **rhwystredig** pan dw i ddim yn gallu ynganu yn gywir, a cheisio cael fy ngheg i symud mewn ffordd newydd, ond **mae'n dod yn haws**.

Dw i'n lwcus achos dw i'n cael cyfle i ymarfer siarad tu allan i'r dosbarth. O'r blaen, ro'n i'n **rhoi cynnig arni** yn Gymraeg, cael ateb yn Gymraeg ac yna ro'n i'n troi i'r Saesneg rhag ofn fy mod i'n dweud rhywbeth yn anghywir. Ond dw i'n dechrau cael mwy o hyder erbyn hyn i'r gario mlaen i siarad Cymraeg. Mae'r ap 'SaySomethingInWelsh' hefyd wedi bod yn wych achos dw i'n gallu cymryd fy amser a gwrandao ar bobl eraill yn siarad. Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Felly, beth sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf?

Dw i'n gweithio ar brosiect gyda'r Eisteddfod AmGen, sydd yn gyffrous iawn. Mi fydda i yn gweithio gyda'r cerddor Jonny Reed i greu fideo cerddoriaeth newydd ac mi fyddwn ni hefyd yn rhyddhau sengl o'r gân. Dyma fydd y tro cyntaf i mi ganu yn Gymraeg!

Bydd 'na sgwrs fer, yn Gymraeg, yn rhan ohono hefyd. Dw i'n nerfus, ond yn edrych ymlaen. Dw i'n gobeithio hefyd y bydda i cyn bo hir yn cael teithio i

Budapest i recordio albwm blues newydd. Dw i'n gweithio gyda'r canwr a'r **cyfansoddwr** Little G Weevil. 'Dyn ni wedi gwneud ambell gig gyda'n gilydd a dw i'n canu ar ei albwm e.

A beth am y Gymraeg yn y dyfodol?

Bydda i'n sicr yn cario mlaen gyda'r gwersi Cymraeg. Mae fy nhwtor, Liz Bowen, yn **anhygoel** a dw i wrth fy modd gyda'r criw sy'n dysgu gyda fi. Mae grŵp WhatsApp gyda ni i siarad â'n gilydd ac mae pawb yn helpu ei gilydd. Roedd y gwersi hefyd yn hyfryd iawn yn y pandemig - ffordd wych o dorri ar y diwrnod a'r wythnos ac i dynnu eich meddwl oddi ar bethau eraill, tra'n dysgu ar yr un pryd.

Dw i hefyd yn bwriadu cario mlaen i rannu fy mhrofiad yn dysgu Cymraeg trwy flogio.

Eisteddfod AmGen

Bydd rhywbeth i bawb o bob oed yn yr Eisteddfod AmGen eleni. Bydd yr Eisteddfod AmGen yn cael ei chynnal yn **rhithiol** rhwng 31 Gorffennaf - 7 Awst. Bydd cystadlaethau **llwyfan**, sgwrsiau o bob math a chyfle i fwynhau ychydig o gerddoriaeth a chelf. Bydd y cyfan ar S4C a BBC Radio Cymru drwy'r wythnos. Bydd cyfle i wyllo popeth yn ôl ar wefan yr Eisteddfod, eisteddfod.cymru ac ar sianel YouTube yr Eisteddfod.

Singer Dionne Bennett has been learning Welsh since November. She tells us what learning Welsh has been like and talks about her plans to sing in Welsh for the first time during the Eisteddfod AmGen, which will be held virtually between 31 July - 7 August.

Geirfa

- rhwystredig** - frustrating
- mae'n dod yn haws** - it's getting easier
- rhoi cynnig arni** - give it a go
- ar y gweill** - in the pipeline
- cyfansoddwr** - composer
- anhygoel** - amazing
- rhithiol** - virtual
- llwyfan** - stage





dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Dysgu
Learn